

Y Gwir am Ynni

Mae gadael y gwres ymlaen ar wres isel drwy'r dydd yn rhatach na throï'r gwres i fyny ac i lawr yn ôl yr angen.

Bydd troï'r thermostat i fyny yn cyhnesu eich cartref yn gynt.

Mae'n anodd ac yn drafferthus newid cyflenwyr ynni.

Mae'n rhatach defnyddio offer trydanol, megis peiriannau golchi, yn ystod y nos nag yn ystod y dydd.

Pan fyddwch yn defnyddio cyfrifiadur bwrdd gwaith, mae arbedwr sgrin yn arbed ynni.

ANWIR: I'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai, bydd gadael thermostat eich ystafell ymlaen ar dymheredd is drwy'r dydd nid yn unig yn golygu na fydd eich cartref byth ar dymheredd cyfforddus ond y bydd hefyd yn gwastraffu gwres pan nad oes ei angen arnoch. Mae thermostatau ystafelloedd yn troi'r gwres ymlaen ac yna'n ei ddiffodd pan fydd y tymheredd yn eich cartref yn cyrraedd lefel benodol sy'n gyfforddus i chi. Er mwyn arbed arian ar eich biliau ynni, dylech hefyd osod amserydd a fydd yn sicrhau mai dim ond pan fydd angen gwres arnoch y bydd eich system wresogi yn weithredol.

ANWIR: Mae thermostat eich ystafell yn troi eich system wresogi ymlaen, neu'n ei diffodd, yn unol â thymheredd penodol. Ni waeth pa mor uchel y byddwch yn gosod y tymheredd, ni fydd yn effeithio ar ba mor gyflym y bydd eich system gwres canolog yn dosbarthu'r gwres. Er mwyn cynhesu eich cartref yn gynt, dylech osod mesurau insiwleiddio gwell. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn colli llai o wres drwy'r waliau, llofft, ffenestri a'r llawr - gan gynhesu eich cartref yn gynt a'i gadw'n gynnes am gyfnod hirach o amser.

ANWIR: Mae nifer o gwmnïau cymharu prisiau ynni lle gallwch ganfod y tariff rhataf ar gyfer eich ardal ar-lein neu dros y ffôn. Unwaith y byddwch wedi nodi eich prif fanylion ar y ffurflen gais, sydd fel arfer yn cymryd tua hanner awr, bydd y cyflenwr ynni yn delio â'r newid ar eich rhan. Gall canfod y fargen orau i chi, a newid cyflenwr ynni, fod yn ffordd wych o leihau eich biliau ynni.

Efallai bod hyn yn wir, ond nid ar gyfer y rhan fwyaf ohonom. Er bod rhai cartrefi yn y DU ar dariffau sy'n amrywio yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd, megis Economi 7, mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn talu'r un gyfradd ar bob adeg o'r dydd a'r nos. Fodd bynnag, os ydych ar dariff Economi eisoes, neu'n ystyried newid i dariff o'r fath, yna bydd defnyddio eich offer trydanol yn ystod cyfnodau allfrig yn rhatach.

ANWIR: Gan fod eich sgrin yn parhau i fod ymlaen, rhaglen yw arbedwyr sgrin mewn gwirionedd sy'n defnyddio ynni fel unrhyw raglen arall. Er bod gan gyfrifiaduron osodiadau segur wedi'u hamseru sy'n defnyddio llai o ynni, y ffordd fwyaf effeithiol o atal ynni rhag cael ei wastraffu yw drwy ddiffodd eich monitor, neu hyd yn oed eich cyfrifiadur cyfan, pan fyddwch yn cael egwyl.

Nid yw offer trydanol, fel setiau teledu, gliniaduron a gwefryddion ffôn yn defnyddio trydan pan fyddant wedi'u cysylltu â'r plwg ond yn segur.

Mae rhoi tâp plastig a haenen lynu o amgylch ffenestri drafftio yn ffordd well o gadw gwres yn y cartref na rhimynnau drafftiau neu ffenestri dwbl.

Mae insiwleiddio waliau ceudod yn achosi lleithder yn y cartref.

Ni allwch ddefnyddio bylbiau arbed ynni a bylbiau golau LED os oes gennych ffitiadau bylbiau golau traddodiadol.

Nid yw paneli solar yn cynhyrchu trydan ar ddiwrnod cymylog.

ANWIR: Mae rhai offer trydanol a gwefryddion yn casglu ynni hyd yn oed pan fyddant yn segur. Mae'r pŵer wrth gefn hwn yn gwastraffu ynni, a'r ffordd orau o osgoi hyn yw drwy gofio diffodd y swîts yn y wal a datgysylltu'r plwg. Drwy osgoi'r modd segur, a sicrhau na chaiff dyfeisiau eu gadael wedi'u cysylltu â'r plwg neu'n segur, gallai cartref cyffredin arbed tua £30 y flwyddyn*

*Yn seiliedig ar holl offer y cartref, electroneg defnyddwyr, goleuadau a gwefryddion sydd wedi cael eu gadael mewn modd segur neu sydd wedi cael eu gadael ymlaen ond heb eu defnyddio, sy'n defnyddio trydan ar gost gyfartalog o 14.37c/kWh. Ffynhonnell - Astudiaeth Trydan yn y Cartref DEFRA Electricity Study.

ANWIR: Er y bydd llenwi bylchau o amgylch eich ffenestri yn atal drafftiau, ni fydd yn arbed llawer arian ar eich biliau ynni. Mae opsiynau ar gael megis sribedi drafftiau, neu fesurau mwy parhaol, fel gosod ffenestri dwbl, a fydd yn lleihau faint o wres sy'n cael ei golli yn fwy effeithiol ac yn arbed arian ar eich biliau gwresogi.

ANWIR: Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol y bydd insiwleiddio waliau ceudod yn lliniaru lleithder mewn cartref yn hytrach na'i waethygu. Bydd cyfuniad o fesurau insiwleiddio cywir, system awyru briodol a gwres cytbwys mewn cartref yn helpu i osgoi mannau oer ac atal lleithder rhag cyddwyso ar eich waliau. Dylai aseswyr allu dweud wrthy ch a yw eich cartref yn addas ar gyfer insiwleiddio ac a oes unrhyw risg bosibl o leithder.

ANWIR: Mae pob math o fylbiau golau arbed ynni ac LED ar gael, a bellach gellir eu defnyddio mewn is-oleuwyr, lampau annibynnol a lampau crog.

ANWIR: Er y bydd paneli solar yn gweithio'n fwyaf effeithiol mewn golau haul llachar, maent serch hynny yn parhau i gasglu ynni o olau gwasgaredig hyd yn oed ar ddiwrnod cymylog. Misoedd yr haf yw'r rhai mwyaf cynhyrchiol gan fod oriau'r dydd yn hirach nag oriau dydd y gaeaf.

Cysylltwch â Nyth ar Rhadffôn

0808 808 2244

i weld sut y gallwn eich helpu chi

